**PWYLLGOR BUSNES**

**ADRODDIAD I'R CYNULLIAD AR GYNIGION I NEWID RHEOLAU SEFYDLOG Y CYNULLIAD YN UNOL Â**

**RHEOL SEFYDLOG 26.1**

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.1, cynigiodd Trefnydd y Cynulliad yng nghyfarfod Pwyllgor Busnes y Cynulliad ar 14 Rhagfyr y dylid cyflwyno Rheolau Sefydlog newydd i ddarparu ar gyfer sefydlu panel cynllunio.

Mae'r manylion llawn wedi eu cynnwys yn y cynnig sydd wedi ei gyflwyno ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Cefndir**

Yn fyr, mae'r cynnig yn gweithredu argymhelliad Grp Ymgynghorol y Cynulliad Cenedlaethol y dylai'r penderfyniadau cynllunio hynny yr oedd yr Ysgrifennydd Gwladol yn eu gwneud yn bersonol gynt, gael eu trafod gan Banel a ffurfid o aelodau'r pwyllgor pwnc perthnasol yn y Cynulliad.

Ni fydd mwy na phedwar aelod ar Bwyllgor Penderfyniadau Cynllunio ar unrhyw un adeg. Bydd yr Ysgrifennydd Cynulliad â chyfrifoldeb dros Lywodraeth Leol a'r Amgylchedd neu (os nad yw ef neu hi yn gymwys) gadeirydd y pwyllgor hwnnw yn un o'r pedwar aelod. Bydd yr aelodau eraill yn cael eu tynnu o rota a fydd yn cynnwys aelodau Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd, a bydd yn adlewyrchu cydbwysedd y pleidiau. Cynlluniwyd y broses hon i fod yn agored ac yn dryloyw. Y bwriad yw osgoi'r posibilrwydd o gael unrhyw elfen wleidyddol yn rhan o'r broses led-farnwrol.

Bydd Pwyllgorau Penderfyniadau Cynllunio yn penderfynu ar y materion hynny a oedd yn arfer bod yn destun penderfyniad gan y Gweinidogion, ond ni fyddant yn gwneud penderfyniadau ar **bob** achos cynllunio. Bwriedir i'r **holl** apeliadau cynllunio a adferir oddi wrth yr Arolygiaeth a'r **holl** geisiadau cynllunio a elwir i mewn fod yn destun penderfyniad gan Bwyllgor Penderfyniadau Cynllunio. Fel arfer mae'r rhain yn achosion mawr sy'n codi materion cynllunio arwyddocaol.

Mae codau ymarfer wedi eu drafftio er mwyn sicrhau ymddygiad priodol gan aelodau pwyllgor

wrth weithredu eu swyddogaethau cynllunio ac er mwyn atal Aelodau eraill o'r Cynulliad rhag ymyrryd â'u gwaith trwy lobïo neu fel arall. Mae'r gwelliant arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn darparu amddiffyniad trwy sicrhau cyfrinachedd y trafodion gan anghymhwyso unrhyw aelod sydd â buddiant etholaeth neu fuddiant arall yn yr achos rhag eistedd ar Bwyllgor Penderfyniadau Cynllunio.

**Ystyriaeth gan y Pwyllgor**

Ystyriodd y Pwyllgor ddau ddrafft gwahanol ar gyfer paragraff 27.8 sy'n ymwneud â'r weithdrefn ar gyfer pennu aelodau os nad yw Clerc y Pwyllgor yn gallu llunio rhestr. Cafodd dewis y Pwyllgor ei gynnwys.

Awgrymodd y Pwyllgor hefyd ddiwygiad i baragraff 27.12 fel y byddai'r Pwyllgor ei hun yn penderfynu ar gadeirydd os nad yw'r Ysgrifennydd Cynulliad yn aelod o'r pwyllgor, yn hytrach na bod y Cadeirydd yn cael ei enwebu gan y Trefnydd. Pe na bai'r Pwyllgor yn gallu penderfynu, yna byddai'r Cadeirydd yn cael ei bennu gan Gadeirydd Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd. Mae hyn hefyd wedi ei ymgorffori yn y gwelliant arfaethedig.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried sylwadau Arweinwyr y Pleidiau.

**Yng ngoleuni'r ystyriaethau hyn, mae'r Pwyllgor yn argymell y Rheol Sefydlog newydd arfaethedig i'r Cynulliad.**

**Jane Davidson**

**Dirprwy Lywydd**

**Cadeirydd y Pwyllgor Busnes**